Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

# Ffurflen hawlio treuliau i Reithwyr ar gyfer darpariaeth gofal plant/ gofal i oedolion bregus neu oedrannus

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon os oes angen i chi hawlio costau ychwanegol yr ydych yn eu cael ar gyfer gofal plant neu ofal i oedolion oedrannus neu oedolion bregus yn ystod y dyddiau yr oeddech yn gwasanaethu ar reithgor. **Ni chewch hawlio'n ôl y costau yr ydych fel arfer yn eu talu am ofal.**

- Os ydych yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser, ac fel arfer yn cyflogi gwarchodwr plant, efallai na fyddwch yn gallu hawlio gofal plant am y dyddiau y byddech fel arfer yn gweithio, gan na fyddwch wedi mynd i unrhyw gostau gofal plant ychwanegol o ganlyniad i wasanaethu ar reithgor.
- Os yw eich plentyn/plant fel arfer yn mynychu clwb neu weithgareddau ar ôl ysgol, yna efallai na fyddwch yn gallu hawlio gofal plant am yr oriau hynny, gan na fyddwch wedi mynd i unrhyw gostau gofal plant ychwanegol o ganlyniad i wasanaethu ar reithgor.
- Os bydd nain neu daid, priod, partner neu ffrind yn cymryd gwyliau blynyddol i ofalu am eich plentyn/ plant, ni fydd y Llys yn talu ei gyflog oherwydd bydd ei gyflogwr fel arfer yn eu talu yn ystod eu gwyliau blynyddol. Nid yw'r Llys yn talu iawndal i drydydd partïon, gan nad oes colled uniongyrchol i chi o ganlyniad i wasanaethu ar reithgor.
- Os yw ffrindiau neu aelodau o'r teulu yn gofalu am eich plentyn/plant neu'n gofalu am oedolyn/oedolion oedrannus/bregus ar eich rhan, a'u bod yn codi tâl arnoch am hyn, gallwch hawlio hyd at £2.50 yr awr, fesul plentyn/oedolyn, tuag at y gost hon, hyd at 8 awr am ddiwrnod llawn yn y Llys.

**Sut i lenwi'ch ffurflen –** Dylech chi (y rheithiwr) lenwi adran 1. Yna dylech ofyn i'ch gwarchodwr plant neu'ch darparwr gofal lenwi adrannau 2 neu 3 yna mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad.

Unwaith y bydd y ffurflen wedi'i llenwi, dylech ei hanfon gyda dogfennau ategol at y Swyddog Rheithgor.

**Siaradwch â'r Swyddog Rheithgor os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, neu gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen hon**

## Adran 1 — Eich manylion (y rheithiwr)

Eich enw

Eich rhif rheithiwr

Eich cyfeiriad

Cod Post

Enw'r Llys y Goron

Rhestrwch y bobl yr oedd angen gofal plant neu ddarpariaeth gofal arall tra'r oeddech yn gwasanaethu ar reithgor (Os ydych yn gofalu am fwy na phedwar o bobl, parhewch ar ddalen ar wahân).

| | Oed | Enw llawn |
|---|---|---|
| 1. | | |
| 2. | | |
| 3. | | |
| 4. | | |

Pwy sy'n darparu'r gofal?

☐ ffrind/aelod o'r teulu ☐ darparwr gofal cofrestredig

## Adran 2 — Darparwr gofal plant (i'w llenwi gan y sawl sy'n gofalu am y plentyn/plant)

Eich enw

Eich rhif ffôn.

Eich cyfeiriad

Postcode

Os ydych yn warchodwr plant cofrestredig gydag Estyn, nodwch eich rhif cofrestru

Nodwch yr oriau a chost y **gofal plant ychwanegol** a ddarparwyd gennych tra'r oedd y rheithiwr yn gwasanaethu ar reithgor:

| Wyth-nos | | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | oriau | | | | | |
| | cyfan-swm y gost | £ | £ | £ | £ | £ |
| 2 | oriau | | | | | |
| | cyfan-swm y gost | £ | £ | £ | £ | £ |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y gost ar gyfer darparu gofal plant ychwanegol yw** | £ |

Llofnod y gwarchodwr plant

Dyddiad

## Datganiad gan y Rheithiwr (Gofal Plant)

Rwy'n hawlio am gostau a gododd tra'r oeddwn yn gwasanaethu fel rheithiwr, na fyddai wedi codi fel arall, ac rwy'n amgáu anfonebau, derbynebau ac/neu ddogfen (dogfennau) eraill i gefnogi fy hawliad.. Rwyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth uchod yn gywir. **Rwyf yn deall y gellir fy erlyn** os wyf wedi rhoi unrhyw wybodaeth y gwn ei bod yn anwir neu na chredaf ei bod yn wir

Llofnod

Dyddiad

**I gefnogi eich hawliad,** mae'n rhaid i chi ddarparu anfonebau neu dderbynebau i ddangos y costau, a dogfennau i brofi hunaniaeth y plentyn (plant), er enghraifft llythyr budd-dal plant, tystysgrif geni, pasbort plentyn. Peidiwch ag anfon y rhai gwreiddiol, bydd llungopïau clir yn dderbyniol.

## Adran 3 — Darparwr gofal (i'w llenwi gan y sawl sy'n gofalu am yr oedolyn neu oedolion oedrannus/bregus)

Eich enw

Eich rhif ffôn.

Eich cyfeiriad

Cod post

Nodwch yr oriau a chost y **gofal ychwanegol** a ddarparwyd gennych tra'r oedd y rheithiwr yn gwasanaethu ar reithgor:

| Wyth-nos | | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Wednesday | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | oriau | | | | | |
| | cyfan-swm y gost | £ | £ | £ | £ | £ |
| 2 | oriau | | | | | |
| | cyfan-swm y gost | £ | £ | £ | £ | £ |

**Cyfanswm y gost ar gyfer darparu gofal plant ychwanegol yw** £

Llofnod y darparwr gofal

Dyddiad

## Datganiad gan y Rheithiwr (gofal i oedolion bregus/oedrannus)

Rwy'n hawlio am gostau a gododd tra'r oeddwn yn gwasanaethu fel rheithiwr, na fyddai wedi codi fel arall, ac rwy'n amgáu anfonebau, derbynebau ac/neu ddogfen (dogfennau) eraill i gefnogi fy hawliad.. Rwyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth uchod yn gywir. **Rwyf yn deall y gellir fy erlyn** os wyf wedi rhoi unrhyw wybodaeth y gwn ei bod yn anwir neu na chredaf ei bod yn wir.

Llofnod

Dyddiad

**I gefnogi eich hawliad,** mae'n rhaid i chi ddarparu anfonebau neu dderbynebau i ddangos y costau, a dogfennau i brofi hunaniaeth yr oedolyn (oedolion) oedrannus/bregus, er enghraifft, tystysgrif geni, pasbort plentyn, neu lythyr budd-dal gofalwr. Peidiwch ag anfon y rhai gwreiddiol, bydd llungopïau clir yn dderbyniol.